# Looking after your Social Care Information



## Social Care and Health

*This information can be made available in other languages and other formats on request. Please ask.*

# Why do we collect personal information about you?

We collect information from you so that we can find out if you are eligible for services and to help us organise those services properly.

The Data Protection Act 1998 tells us what we should and should not do with the information you give us. We are fully committed to the Data Protection Principles described in the act. So, subject to the Data Protection Act and other laws:

- We will only pass your information on to someone if they need it to do their job, and only then with your permission, unless the law says we should.
- We will not pass on more information than we need to.
- We will keep your information securely.
- We will use the information you give us only for the purpose you gave it to us for.
- You have a right to see the information we have collected about you.
- We will only keep information that we need and we won't keep it longer than we need to.

Cardiff and the Vale of Glamorgan Councils have agreed "Information Sharing Protocols" with local Health Services and other organisations that confirm we all work to these principles.

# What is the information used for?

Some of the ways we use the information are:

- Helping to work out and plan the services you need
- Telling the people who provide services about your needs
- Helping us plan and develop services
- Helping us report on the work we have done and how we have used public funds.

# Will my information be kept confidentially?

We are very careful to ensure that the information we have (which can be very personal) is kept securely. The organisations we share information with are equally committed to these principles. This means they too will keep it securely and won't share it without your permission.

# What happens if I don't give you permission?

If you don't give us permission to share the information you give us then you may find that you have to answer the same questions over and over again. We may have to tell you we can't provide some of the services you need.

We will share your information without your permission only if the law says we should. This could be to protect your vital interests or to prevent someone else being put at risk. This doesn't happen very often.

Some people are unable to give permission to share information. When this happens we try to find someone authorised to act for them.

## Can I see the information?

Yes, in fact most of the information that we keep about you is information that you give us. You have the right to see the information, to check that it is accurate and that we are acting and keeping records properly.

## Can I see all of the information about me?

Usually you can. On very rare occasions, for example, if sharing the information is likely to result in serious harm to you or someone else, we may have to keep some of it back. Also certain information in your file might be from or about another person or organisation and, if so, we would have to ask them first.

## How can I see the information held about me?

Ask your care coordinator first. They will tell you what we hold, what they can share with you straight away and whether there is any information you would have to apply formally to see.

If you want to see all the information the Council holds on you, including information held in other services, you will have to apply formally in writing and pay a fee of £10. If so, contact the Data Protection Officer whose address is at the end of this leaflet.

## What if something goes wrong?

If you think we have not kept to these principles in any way, please discuss this with your care coordinator first. If you are still not satisfied, you can make a formal complaint. Ask your care coordinator, pick up a form at any Council centre or ring:

**If you live in Cardiff:**

**Data Protection Officer** **029 2087 2110**
Cardiff Council, County Hall,
Cardiff. CF10 4UW

**If you live in the Vale of Glamorgan:**

**Data Protection Officer** **01446 700111**
Vale of Glamorgan Council,
Civic Offices, Barry. CF63 4RU

# Visit us online at...

**Cardiff Council**
www.cardiff.gov.uk

**Vale of Glamorgan Council**
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cardiff Local Health Board**
www.cardifflhb.wales.nhs.uk

**Vale of Glamorgan Local Health Board**
www.valeofglamorganlhb.wales.nhs.uk

**Cardiff and Vale NHS Trust**
www.cardiffandvale.wales.nhs.uk

We are committed to ensuring that services are accessible to all, regardless of racial and ethnic origin, gender, sexuality, disability, age, language or religious beliefs.

This leaflet is a general guide and is not a full and authoritative statement of the law. We believe that this leaflet is correct at the date published. Changes in the law or Council policy may affect its accuracy.
Last printed: July 2005

Photos from
www.JohnBirdsall.co.uk

# Edrych ar ôl eich Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd



Gofal Cymdeithasol

*Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd eraill, a fformatau eraill. Dim ond i chi ofyn.*

## Pam byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi?

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn i ni gael gwybod a ydych yn gymwys i dderbyn gwasanaethau ai peidio ac i'n helpu i drefnu'r gwasanaethau hynny'n iawn.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn pennu'r hyn y dylem ac na ddylem ei wneud gyda'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu'n ôl Egwyddorion Diogelu Data'r ddeddf. Felly, yn amodol ar Ddeddf Diogelu Data 1998 a chyfreithiau eraill

- Ni chaiff eich gwybodaeth ei throsglwyddo i neb onibai fod ei hangen ar y person hwnnw at ddibenion gwaith ac nis trosglwyddir o gwbl heb eich caniatâd chi onibai fod y gyfraith yn ein gorfodi i wneud hynny.
- Ni throsglwyddwn fwy o wybodaeth nag sydd ei hangen.
- Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.
- Defnyddiwn y wybodaeth am y rheswm y casglwyd hi'n unig.
- Mae gennych hawl i weld y wybodaeth a gasglwyd amdanoch.
- Ni chadwn unrhyw wybodaeth yn ddiangen na'i chadw am fwy o amser nag sydd ei angen.

Mae Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, wedi cytuno ar “Brotocoliau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth” â Gwasanaethau Iechyd lleol a sefydliadau eraill sy'n cadarnhau ein bod i gyd yn gweithredu'n ôl yr egwyddorion hynny.

## Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth?

Defnyddiwn y wybodaeth er mwyn:

- ein helpu i lunio a chynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.
- sôn am eich anghenion wrth ddarparwyr gwasanaethau
- ein helpu i gynllunio a datblygu gwasanaethau
- ein helpu i gyflwyno adroddiadau ar y gwaith a wnaethom a'r ffordd y defnyddiwyd arian cyhoeddus

## A gaiff fy ngwybodaeth ei chadw'n gyfrinachol?

Byddwn yn gofalu bod y wybodaeth sydd gennym (sy'n wybodaeth bersonol dros ben ar sawl cyfrif) yn cael ei gadw'n gwbl ddiogel. Mae'r sefydliadau sy'n rhannu'r wybodaeth â ni hefyd wedi ymrwymo i ddilyn yr egwyddorion hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y rheiny hefyd yn ei chadw'n ddiogel ac yn gwrthod ei rhannu â neb heb eich caniatâd chi.

## Beth fydd yn digwydd os gwrthodaf roi caniatâd i chi?

Os gwrthodwch roi caniatâd i ni rannu'r wybodaeth, mae'n bosibl y bydd yn rhaid gofyn i chi ateb yr un cwestiynau dro ar ôl tro. Mae'n bosibl hefyd na chewch bob un o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.

Ni rannwn eich gwybodaeth â neb heb eich caniatâd onibai fod y gyfraith yn ein gorfodi i wneud hynny. Digwydd hynny weithiau pan fydd angen ei rhannu er mwyn gwarchod eich buddiannau pennaf chi neu gadw rhywun arall rhag perygl, ond ni ddigwydd yn aml iawn.

Mae rhai pobl na fedr roi caniatâd i ni rannu ei gwybodaeth. Mewn achosion felly, byddwn yn chwilio am bobl a gaiff weithredu ar eu rhan.

## A gaf i weld y wybodaeth?

Cewch, yn wir y mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn wybodaeth a gawsom oddi wrthych yn y lle cyntaf. Mae gennych berffaith hawl i weld y wybodaeth honno, er mwyn sicrhau ei bod yn fanwl gywir a'n bod ninnau'n gweithredu ac yn cadw cofnodion yn gywir.

## A gaf i weld pob darn o wybodaeth sydd gennych amdanaf?

Cewch, fel arfer. Serch hynny, ar adegau prin iawn pan allai rhannu gwybodaeth achosi niwed i chi neu rywun arall, byddwn yn dewis peidio â datgelu popeth. Mae'n bosibl hefyd fod rhai darnau o wybodaeth yn eich ffeil un ai wedi dod oddi wrth berson neu sefydliad arall neu'n ei drafod, a bod angen gofyn i'r person neu'r sefydliad hwnnw am ganiatâd felly cyn ei datgelu.





## Sut mae mynd ati i weld y wybodaeth sydd gennych amdanaf?

Gofynnwch i'ch cydgysylltydd gofal yn gyntaf. Bydd ef neu hi'n esbonio pa wybodaeth sydd gennym, pa wybodaeth y gallwn ei rhannu â chi ar unwaith a pha wybodaeth y bydd yn rhaid cyflwyno cais ffurfiol er mwyn ei gweld.

Os hoffech weld pob darn o wybodaeth sydd gan y Cyngor amdanoch, gan gynnwys y wybodaeth sydd gan wasanaethau eraill, bydd yn rhaid i chi wneud cais ffurfiol ysgrifenedig a thalu £10. Os ydych am wneud hynny, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar waelod y daflen.

## Beth petai rhywbeth yn mynd o'i le?

Os ydych yn teimlo ein bod wedi methu â chadw at yr egwyddorion hyn mewn unrhyw ffordd, trafodwch hynny â'ch cyd-gysylltydd gofal yn gyntaf. Os byddwch yn dal yn anfodlon wedyn, ewch ati i wneud cais ffurfiol. Cewch wneud hynny drwy ofyn i'ch cyd-gysylltydd gofal, codi ffurflen yn un o ganolfannau'r Cyngor neu ffonio'r rhifau canlynol:

**Os ydych yn byw yng Nghaerdydd:**

**Y Swyddog Diogelu Data** **029 2087 2110**
Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir,
Caerdydd. CF10 4UW

**Os ydych yn byw ym Mro Morgannwg:**

**Y Swyddog Diogelu Data** **01446 700111**
Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig,
Y Barri. CF63 4RU

# Ymwelwch â ni ar...

**Cyngor Caerdydd**
www.caerdydd.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd**
www.cardifflhb.wales.nhs.uk

**Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg**
www.valeofglamorganlhb.wales.nhs.uk

**Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**
www.cardiffandvale.wales.nhs.uk

Canllaw cyffredinol yw'r daflen hon ac nid yw'n ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Credwn fod y daflen hon yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi. Gall newidiadau yn y gyfraith neu ym mholisi'r Cyngor effeithio ar ei chywirdeb.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i bawb, ar waethaf cefndir hiliol neu ethnig, rhyw, rhywioldeb, anabledd, oedran, iaith neu gredoau crefyddol.

Cyhoeddwyd: Gorffenaf 2005

Mae'r Ffotograffau gan
www.JohnBirdsall.co.uk